

# Dydd Gŵyl Dewi ar Ynys Wyth

**Yn gynnar yn 2020, cysylltodd Sue Cory, Athrawes Dderbyn yn Ysgol Gynradd Gatholig St Mary's yn Ryde, Ynys Wyth â Matt Anthony, Swyddog Datblygu'r Gymraeg. Roedd yn paratoi i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'i dosbarth ac yn holi a allai anfon ychydig o adnoddau ati a fyddai o gymorth wrth ddysgu'r plant am iaith, diwylliant a gwerthoedd Cymru. Mae Sue yn sôn am brofiadau'r plant isod, gan roi cip cyfareddol ar bersbectif plant sydd nid yn unig yn byw mewn gwlad arall ond ar ynys fechan....**

"Er yr honnir fod byd yn dod yn llai a bod pobl yn teithio o gwmpas y byd, weithiau mae'n teimlo fod y Deyrnas Unedig yn dod yn fwy ynysig. Rwy'n canfod, wrth ddysgu'r plant, mai ychydig iawn o wybodaeth neu o brofiad sydd ganddyn nhw o rannau eraill o'r DU. Nid yw plant Ynys Wyth yn eithriad. Yn eu meddyliau nhw, mae Ynys Wyth yn wlad a'r Ynys Fawr dros y dŵr yn lle diarth iawn. Mae'n anodd dysgu gwerthoedd Prydeinig i blant sydd â dim neu ond ychydig o ddealltwriaeth neu wybodaeth o genhedloedd y DU sydd â'u sefydliadau gwleidyddol a diwylliannol gwahanol. Fel athrawes rwy'n hynod o awyddus fod plant yn dysgu am hanes a diwylliant cyfoethog Ynsoedd Prydain.


"Fe ddechreuodd y dydd gydag ychydig o swyn. Roeddem ni'n mynd i Gymru (ond peidiwch â dweud wrth Mark Drakeford). I mewn i'n car â ni a gyrru i lawr at fferi Red Funnel. Awr yn ddiweddarach, roeddem ni'n angori yn Southampton ac yn gyrru ar y draffordd yr holl ffordd at Bont Hafren. Wedi gwirioni nad oedd raid i ni bellach dalu toll, ymlaen â ni i Gaerdydd. Yno roedden ni'n dysgu am Gymru fel gwlad - ei chestyll, traddodiadau, bwyd, tirwedd ac, wrth gwrs, mynyddoedd Eryri. I ddathlu, roedden ni'n paratoi cacenni cri ac yn eu bwyta fel byrbryd wrth wrando ar Hymns and Arias. Cafodd clip o anthem Cymru, yn cael ei chanu yn Stadiwm y Mileniwm, ei dangos i ddathlu ennill y Goron Driphlyg ddydd Sadwrn. Roedd rhai o'r plant yn sôn ei fod yn wirioneddol uchel ac roeddwn i'n cytuno, er yn anffodus, dydw i erioed wedi cael y fraint o'i chlywed yn cael ei chanu yng Nghaerdydd, er fy mod yn ddigon hen i gofio gwyllo JPR, JJ, Gareth a Merv the swerve ar y teledu!

"Yna, cawsom amrywiaeth o weithgareddau i'w gwneud, yn dechrau gydag anfon cerdyn post yn ôl i'r ysgol o Gymru, gwneud llwyau caru, defnyddio Bee-Bot i deithio o Ynys Wyth i Gastell Caernarfon, baneri, gwneud cennin Pedr, edrych ar gennin a sillafu geiriau gyda'r ffonem 'ee' ac wrth gwrs, sesiwn rygbi.

"Cefais wybod fod rhiant yn fy nosbarth wedi byw yng Nghymru ac wedi dysgu Cymraeg at Lefel A. Gwnaeth hi ddwy fideo ardderchog i'n dysgu i gyfrif i 10 a chanu "Deryn Melyn" yn Gymraeg. Roedd gennym eisoes y llyfrau yr oedd Blynnyddoedd Cynnar Cymru wedi'u hanfon atom a dangosais yr arwyddion ffyrdd dwyieithog a 'll' sy'n cael ei ynganu'n wahanol. Roedd yn dod at ddiwedd ein diwrnod ac yn bryd i ni fynd yn ôl i Ynys Wyth, gan obeithio gan oedd y fferi'n hwyr neu wedi'i chanslo!

**Cafodd pawb diwrnod gwych, gartref ac yn yr ysgol.**

**"Mewn ychydig o wythnosau byddwn yn mynd draw i'r Iwerddon ar gyfer Dydd Gŵyl Padrig Sant, felly, mi fyddwn yn mynd trwy Gymru. Byddwn yn cofio codi llaw. "Mil ddiolch i Matt Anthony o Flynyddoedd Cynnar Cymru am ei gefnogaeth. Ffarwel, Gymru"**



profi ychydig o ddiwylliant Cymru



Cymru

Ynys Wyth